



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

**POLISI ABSENOLDEB I RIENI**

Arolwg	Dyddiad	Pwrpas y Cyhoeddiad / Disgrifiad o'r Newid	Dyddiad yr Arolwg
1.	2006		2007
2.	2007		2008
3.	2011	Newidiadau i ddeddfwriaeth	2013
4.	2014	Newidiadau cosmetig	2015
5.	2015	Diweddariad am eglurder	2016
6.	2016	Newidiadau cosmetig	2017
7.	2018	Newidiadau i ddeddfwriaeth	2020
8.	2021	Adolygiad - newidiadau i eiriad nad ydynt yn effeithio ar gynnwys	2023
Swyddog Polisi	Uwch Swyddog â Chyfrifoldeb	Cymeradwywyd gan a Dyddiad	Asesiad o ran Effaith ar Gydraddoldeb, a dyddiad
Jade Luke	Steffan Griffiths	HRTG 10/02/2003	

## Tabl Cynnwys

1	HAWLIAU ABSENOLDEB RHIANT .....	3
2	CYMHWYSEDD .....	3
3	HYD ABSENOLDEB.....	3
4	TELERAU AC AMODAU TRA AR ABSENOLDEB .....	4
5	DYCHWELYD I'R GWAITH .....	5
6	RHYBUDD / DARPARIAETH OHIRIO.....	5
7	ADOLYGU POLISI.....	6

## **1 HAWLIAU ABSENOLDEB RHIANT**

Absenoldeb rhiant yw hawl cyfreithiol i gymryd amser o'r gwaith i ofalu am blentyn neu i wneud trefniadau ar gyfer eu lles. Gall rhieni ddefnyddio'r hawl i dreulio mwy o amser gyda'u plant a tharo cydbwysedd gwell rhwng ymrwymadau gwaith a theulu. Gall rhieni gymryd absenoldeb rhiant, gan gynnwys y rhai hynny sydd mewn perthynas â rhywun o'r un rhyw.

## **2 CYMHWYSEDD**

Gall rhieni fod yn gymwys am absenoldeb i rieni. Rhaid iddynt naill ai fod wedi eu henwi ar dystysgrif geni'r plentyn, neu fod â chyfrifoldeb rhieni dros y plentyn yn ôl y gyfraith. Nid oes raid i rieni plentyn fod yn byw gyda'r plentyn er mwyn bod yn gymwys i gael absenoldeb i rieni.

Bydd hawl gan rai sy'n mabwysiadu plentyn i gymryd absenoldeb i rieni oherwydd bydd ganddynt gyfrifoldeb rhieni pan fyddant yn mabwysiadu.

Mae gan y brifysgol hawl i ofyn am dystiolaeth mai chi yw rhiant plentyn neu bod gennych gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. Gall y dystiolaeth fod ar ffurf gwybodaeth a geir yn nhystysgrif geni'r plentyn, papurau'n ymwneud â mabwysiadu'r plentyn neu ddyddiad lleoli neu, yn achos plentyn anabl, ddyfarnu lwfans byw anabledd i'r plentyn.

Diben absenoldeb i rieni yw i'ch galluogi i ofalu am eich plentyn. Mae hyn yn golygu edrych ar ôl lles eich plentyn a gall gynnwys gwneud trefniadau er budd eich plentyn. Dyma enghreifftiau o'r ffyrdd y gellir defnyddio'r absenoldeb:

- I dreulio mwy o amser gyda'ch plentyn
- I fod gyda'ch plentyn yn ystod arhosiad mewn ysbyty
- Ymweld ag ysgolion newydd
- Cael eich plentyn i gynefino â threfniadau gofal plant newydd
- Galluogi'r teulu i dreulio mwy o amser gyda'i gilydd; er enghraifft, mynd â'ch plentyn i aros gyda thaid a nain.

Pe baech yn defnyddio'r absenoldeb i ddibenion eraill, yna byddai rhieni'n gweithredu'n anonest a delir â hynny dan drefniadau disgyblaethol y brifysgol.

## **3 HYD ABSENOLDEB**

Gall pob rhiant gymryd cyfanswm o 18 wythnos o absenoldeb i rieni am bob plentyn. Yn achos genedigaethau lluosog mae pob plentyn yn cyfrif ac felly gall rhiant gefeilliaid gymryd hyd at 36 wythnos o absenoldeb i gyd.

Mae wythnos o absenoldeb i rieni yn cyfateb i hyd arferol eich wythnos waith. Felly, os ydych yn arfer gweithio o ddydd Llun i ddydd Gwener, mae wythnos o absenoldeb

yn cyfateb i 5 niwrnod ond, os ydych yn gweithio dydd Llun a dydd Mawrth yn unig, mae absenoldeb wythnos yn cyfateb i 2 ddiwrnod.

Cymerir absenoldeb i rieni mewn blociau o un wythnos (ac eithrio rhieni plant anabl a all gymryd absenoldeb mewn dyddiau unigol). Fel rheol, gellir cymryd hyd at 4 wythnos o absenoldeb i rieni am bob plentyn cymwys yn ystod blwyddyn, drwy gytundeb â Phennaeth yr Adran, gan roi cyfanswm o 18 wythnos (cyfanswm y plentyn, nid y flwyddyn).

Rhaid i staff ddefnyddio absenoldeb i rieni cyn pen-blwydd y plentyn yn 18.

Mae absenoldeb i rieni'n hawl i'r unigolyn ac ni ellir ei drosglwyddo rhwng rhieni.

Gall rhieni gymryd absenoldeb i rieni'n syth ar ôl cyfnod o absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu, os cyflawnir y gofynion rhybudd ac os cyflawnir amodau eraill, megis y cyfnodau cymhwys.

#### **4 TELERAU AC AMODAU TRA AR ABSENOLDEB**

Mae'r contract cyflogaeth a thelerau ac amodau cyflogaeth yn parhau yn ystod cyfnod o absenoldeb i rieni, oni bai eich bod chi neu'r brifysgol yn ei derfynu. Golyga hyn eich bod yn parhau i fanteisio ar eich hawliau cyflogaeth statudol yn ystod absenoldeb i rieni.

Nid yw'r hawl yn cynnwys cyflog.

Byddwch yn parhau i Gronni Gwyliau Blyneddol yn ystod unrhyw gyfnod o absenoldeb i rieni. Mae hyn yn cynnwys unrhyw wyliau banc neu ddiwrnodau prifysgol a all ddisgyn yn ystod y cyfnod hwn.

Os nad ydych eisiau dychwelyd i'r gwaith ar ôl eich absenoldeb i rieni, rhaid i chi derfynu eich contract cyflogaeth yn unol â'r gofynion rhybudd gadael yn eich contract.

Mae cyfnod absenoldeb i rieni'n cyfrif tuag at gyfnod cyflogaeth di-dor i ddibenion hawliau statudol gwarchod cyflogaeth, yn cynnwys cyfrifo taliad diswyddo.

Pan fyddwch ar gyfnod o absenoldeb di-dâl i rieni, mae hawliau pensiwn galwedigaethol sydd wedi cronni cyn i chi ddechrau'r absenoldeb i rieni'n cael eu rhewi nes byddwch yn dychwelyd i'r gwaith.

Cewch eich trin yr un fath ag unrhyw aelod staff arall pan fydd sefyllfa ddiswyddo'n codi. Mae hyn yn cynnwys triniaeth yn ymwneud ag ymgynghori ynghylch y diswyddo ac ystyried unrhyw swyddi gwag eraill sydd ar gael.

## **5 DYCHWELYD I'R GWAITH**

Ar ddiwedd eich absenoldeb i rieni, gwarantir yr hawl i chi ddychwelyd i'r un swydd ag o'r blaen os oedd yr absenoldeb am gyfnod o 4 wythnos neu lai; os oedd am gyfnod hwy, mae hawl gennych i ddychwelyd i'r un swydd, neu, os nad yw hynny'n ymarferol resymol, i swydd gyffelyb o'r un statws neu well, ac ar yr un telerau ac amodau â'r swydd flaenorol.

Mae gennych hawl hefyd i fanteisio ar unrhyw welliannau cyffredinol i'r raddfa gyflog (neu delerau ac amodau eraill), a all fod wedi cael eu cyflwyno i'ch graddfa tra oeddech i ffwrdd.

## **6 RHYBUDD / DARPARIAETH OHIRIO**

Mae'n rhaid i chi roi rhybudd o fan leiaf 21 diwrnod i'r brifysgol (bydd hyn drwy eich Rheolwr Llinell / Pennaeth Ysgol neu Adran), trwy lenwi'r ffurflen berthnasol.

Os ystyrir y byddai eich absenoldeb yn tarfu'n ormodol ar fusnes y brifysgol, yna gellir gohirio eich absenoldeb am ddim mwy na 6 mis ar ôl dechrau'r cyfnod pryd roeddech yn wreiddiol eisiau dechrau eich absenoldeb i rieni. Trafodir hyn gyda chi a bydd y brifysgol yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i chi o'r gohiriad ddim diweddarach na 7 niwrnod ar ôl i'ch cais i gymryd absenoldeb gael ei roi i'r brifysgol. Bydd y rhybudd hwn yn nodi'r rheswm dros y gohiriad a nodi dyddiadau newydd yr absenoldeb i rieni. Bydd hyd yr absenoldeb yr un faint â'r hyn a nodwyd yn eich cais gwreiddiol.

Os gwnewch gais i gymryd absenoldeb i rieni yn syth ar ôl geni neu fabwysiadu plentyn, yna ni fydd eich absenoldeb yn cael ei ohirio. Mae'n rhaid i chi roi 21 diwrnod o rybudd cyn dechrau'r wythnos y disgwylir yr enedigaeth (bydd mamau beichiog yn gallu rhoi'r wybodaeth hon i'w partneriaid). Yn achos mabwysiadu, mae angen i chi roi 21 diwrnod o rybudd cyn yr wythnos pryd y disgwylir i'r mabwysiadu ddigwydd. Mewn achosion prin lle nad yw hyn yn bosibl, dylai rhiant sy'n mabwysiadu rhoi rhybudd cyn gynted ag y bo'n ymarferol resymol.

Ni ellir gohirio absenoldeb i rieni fel bod yr absenoldeb yn gorffen ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 18. Pe baech yn teimlo bod gohirio eich absenoldeb i rieni wedi bod yn afresymol dylech, yn y lle cyntaf, godi'r mater gyda'ch rheolwr llinell / Pennaeth yr Adran / Ysgol / Coleg.

Caiff cwynion eu monitro, gyda'r nod o sicrhau cysondeb rhwng adrannau, ysgolion a cholegau yn y ffordd mae polisiâu'n ymwneud â chydbwysedd gwaith-bywyd yn cael eu gweithredu ar draws y brifysgol.

## **7 ADOLYGU POLISI**

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau o dro i dro i wneud yn siŵr ei fod yn dal i fod yn addas at anghenion y sefydliad ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.